



Canllaw CBAC i Swyddogion Arholiadau

Cyfrifiadureg Aseidiadau Ar Sgrin



CBAC Cyfrifiadureg

Asesiadau Ar Sgrin

2019

Dylid defnyddio'r ddogfen hon gyda'r arholiadau canlynol:

**CBAC TGAU Cyfrifiadureg Uned 2 (3500N20)
CBAC TAG UG Cyfrifiadureg Uned 2 (2500N20)**

Rhaid i Swyddogion Arholiadau rannu'r wybodaeth hon â thechnegwyr a staff addysgu Cyfrifiadureg, ar ôl ei derbyn.

Ym mhob un o'r arholiadau uchod mae angen defnyddio ffeiliau cyfryngau, y bydd angen defnyddio system Surpass i'w llwytho i lawr.

Ar ôl derbyn adborth gan ganolfannau am gyfresi blaenorol mae CBAC / Eduqas yn gofyn i bob canolfan ddefnyddio'r BTL SecureClient i gyrchu'r ffeiliau cyfryngau sydd eu hangen ar gyfer yr arholiadau. Gall canolfannau ddefnyddio'r cleient hwn i lwytho ffeiliau i lawr hyd at 5 diwrnod cyn yr arholiad. O wneud hyn, nid oes angen cysylltu â'r Rhynggrwyd yn ystod yr arholiad ei hun. Ond, mae angen cysylltu â'r rhynggrwyd ar ddiwedd yr arholiad er mwyn llwytho ffeiliau'r ymgeiswyr i fyny.

Cysylltir â chi yn yr wythnosau i ddod gyda manylion gosod cyfrifon ar gyfer aelodau o staff yn eich canolfan. Unwaith y bydd eich cyfrif wedi'i greu, gallwch chi wedyn gyrchu'r system Surpass.

Bwriad y ddogfen hon yw disgrifio'r canlynol:

1. Gosod SecureClient
2. 5 diwrnod cyn yr arholiad
3. Cynnal arholiad.
4. Atodiad 1: Rhagofynion Secure Client
5. Atodiad 2: Canllaw'r Ymgeisydd i Secure Client

Gosod SecureClient

Noder na fyddwch yn gallu cael mynediad at y canllawiau na'r gosodwr tan y byddwch wedi derbyn manylion mewngofnodi Surpass.

Mae manylion gofynion SecureClient ar gyfer pob CP i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon.

Rhaid gosod SecureClient ar bob CP sydd i'w ddefnyddio yn yr arholiad.

Mae canllaw ar osod SecureClient i'w weld ar y tab cartref ar Surpass.


Argymhellwn yn gryf fod canolfannau'n cynnal ffug-arholiad llawn i wirio bod y feddalwedd wedi'i gosod yn gywir, ac i'r myfyrwyr ddod yn gyfarwydd â'r system. Mae canllaw ar amserlennu ffug-arholiad i'w weld ar y tab cartref ar Surpass. Bydd papur 2018 ar gael i chi at ddibenion ffug-arholiadau. Mae papurau a chynlluniau marcio perthnasol i'w gweld ar y Wefan Ddiogel (<http://www.wjecservices.co.uk>)

5 diwrnod cyn yr arholiad

1. Ar ôl gosod SecureClient ar bob CP bydd angen i chi gael codau allwedd i bob ymgeisydd. Bydd y rhain i'w gweld ar y tab goruchwyllo ar Surpass.
2. Yn gyntaf, penderfynwch ar eich cynllun eistedd ar gyfer yr arholiad. Yna, ar gyfrifiadur penodol pob ymgeisydd gwnewch y canlynol:
3. Lansio'r SecureClient.



4. Mewnbynnu cod allwedd yr ymgeisydd hwnnw a chlicio ar 'Llwytho prawf i lawr i'w gwblhau yn nes ymlaen'.



5. Gwnewch nodyn ar eich cynllun eistedd i ddangos pa god allwedd sy'n perthyn i ba gyfrifiadur.
6. Bydd yr arholiad yn dechrau llwytho i lawr a bydd cadarnhad yn dangos bod y llwytho i lawr yn gyflawn.
7. Ar ddiwrnod yr arholiad, gwnewch yn siŵr bod yr ymgeisydd yn defnyddio'r cyfrifiadur penodol sy'n cyfateb i god allwedd yr ymgeisydd a ddefnyddiwyd yng nghanam 4. I ddechrau, dylai ymgeiswyr fewnbynnu eu cod allwedd i mewn gan ddilyn y Canllaw i Ymgeiswyr.

Cynnal Arholiad

1. Gwybodaeth i dechnegwyr / staff addysgu Cyfrifiadureg – Paratoi ar gyfer yr arholiad

Dylid gwneud y canlynol cyn yr arholiad:

Bydd angen i ymgeiswyr gael mynediad at eu cyfrifiadur penodol gyda:

- Ardal defnyddiwr neu ddyfais storio 'lân' ar gyfer cadw eu gwaith.
- Copi o'r Secure Client wedi'i osod.
- **Ar lefel TAG yn unig:** Copi gweithredol wedi'i osod ymlaen llaw o Amgylchedd Datblygu Integredig ar gyfer yr iaith raglennu benodol. Bydd angen defnyddio un o'r ieithoedd rhaglennu canlynol yn yr arholiad: Visual Basic.NET, Python neu Java. Os defnyddir Python dylech sicrhau bod unrhyw amrywiad ar fersiwn 3.4 neu uwch wedi'i osod.
- **Ar gyfer TGAU yn unig:** Rhaid gosod fersiwn gweithredol ymlaen llaw o Greenfoot (**fersiwn 2.4.2 yn unig**). Dylai porwr rhyngwyd fod ar gael i'r ymgeiswyr hefyd.
- Mynediad at becyn gairbrosesu (e.e. *Microsoft Word*) i gynhyrchu eu hymatebion ymgeiswyr.
- **Ni ddylai'r** rhyngwyd, unrhyw yriannau wedi'u rhannu, Amgylcheddau Rhithwir nac e-bost fod ar gael i'r ymgeiswyr yn ystod yr arholiad.

2. Gwybodaeth i Swyddogion Arholiadau

Dylai cyfrif Surpass fod wedi'i greu ar eich cyfer. Gallwch chi wedyn gael mynediad at y codau allwedd, i'w hargraffu a'u dosbarthu. Os nad ydych wedi derbyn manylion cyfrif, cysylltwch ag e-asesu@cbac.co.uk.

3. Gwybodaeth i dechnegwyr/staff addysgu Cyfrifiadureg – Cyfarwyddiadau ar ddiwrnod yr arholiad

Noder: Mae hawl gan staff addysgu Cyfrifiadureg i fod yn yr ystafell arholiadau i ddelio â materion technegol ond ni ddylent fod yn rhan o'r tîm sy'n goruchwylio. Os ydynt yn bresennol yn yr ystafell arholiadau, rhaid i'r staff addysgu Cyfrifiadureg aros yn yr ystafell am gyfnod llawn yr arholiad.

Dylid cynnal yr asesiad ymarferol dan oruchwyliaeth ffurfiol, h.y. rhaid i'r goruchwyliwr allu gweld yr ymgeiswyr bob amser. Mater hynod benodol yw'r defnydd o adnoddau a gwaherddir rhyngweithio ag ymgeiswyr eraill yn ogystal â'r Rhyngwyd/unrhyw adnodd digidol arall.

a) Cyn yr arholiad:

1. Gwnewch yn siŵr bod yr ymgeiswyr i gyd yn eistedd yn ôl y cynllun eistedd yn yr adran '5 diwrnod cyn yr arholiad'. Gall ymgeisydd ddefnyddio peiriant gwahanol os bydd angen ond bydd llwytho i lawr unrhyw ddeunydd yn digwydd yn y man y maen nhw'n mewnbynnu'r cod allwedd (mae angen cysylltiad rhyngrwyd ar gyfer hyn).

Atodir canllaw i ymgeiswyr isod.

2. Bydd angen i ymgeiswyr gael mynediad at eu cod allwedd eu hunain.
3. Dosbarthwch y slipiau'n cynnwys y codau allwedd i'ch ymgeiswyr.
4. Dylai ymgeiswyr fewnbynnu eu codau allwedd a chadarnhau eu manylion.
5. **Rhaid** i'r goruchwylwyr atgoffa ymgeiswyr i gadw eu gwaith yn rheolaidd. Fel arall, gall technegydd TG osod 'awtogadw' ar bob cyfrifiadur. O wneud hynny, os oes unrhyw gymhlethdod neu fater technegol yn codi, nid yw gwaith yr ymgeisydd yn cael ei golli.
6. Unwaith y bydd pob ymgeisydd wedi mewnbynnu'r cod allwedd, bydd yr arholiad yn dechrau.

b) Dechrau'r arholiad: Noder bod goruchwylwyr yn gyfrifol am amseru'r arholiad. Dylid arddangos amser dechrau ac amser gorffen yr arholiad yn y ffordd arferol.

c)

7. Bydd angen i ymgeiswyr **lwytho i lawr i'w hardal weithio** yr holl ffeiliau y byddant yn eu defnyddio. Os bydd ffeil sip yn rhan o'r deunydd, yna mae'n rhaid **llwytho i lawr, cadw ac echdynnu'r** cynnwys cyn ei ddefnyddio.
8. Dylai ymgeiswyr weithio ar eu hatebion i'r cwestiynau am gyfnod yr arholiad. Rhaid i'r goruchwylwr ddweud wrth yr ymgeiswyr bod yr arholiad yn dod i ben, yn ôl yr arfer.

c) Ar ôl yr arholiad:

Bydd angen i ymgeiswyr gael mynediad at y Rhyngrwyd ar ôl yr arholiad fel y gallant lwytho'u hymatebion i fyny'n llwyddiannus.

8. Bydd angen i ymgeiswyr sipio'r ffeiliau rhaglenni a newidiwyd.
9. Rhaid iddyn nhw lwytho i fyny'r ffeiliau rhaglenni a newidiwyd yn y ffolderi sip ynghyd â'r ddogfen Word yn cynnwys eu hatebion ac unrhyw ffeil arall y maent wedi gweithio arni. Argymhellwn fod ymgeiswyr yn tynnu sgrinluniau o'r hyn maen nhw'n ei lwytho i fyny er mwyn i ganolfannau fod yn ymwybodol o ba ffeiliau a lwythwyd i fyny.

Gellir cysylltu â **02920 265328** i ofyn am gyngor os ceir problemau wrth lwytho gwaith cyflawn ymgeiswyr i fyny.

Rhaid i'r ganolfan gadw copi electronig o waith yr ymgeisydd mewn lleoliad diogel rhag ofn y bydd y cyflwyniad gwreiddiol yn cael ei golli neu'i ddifrodi.

Atodiad 1: Rhagofynion Secure Client

Any previous versions of **WJEC SecureClient** can be uninstalled.

You will need to install the SecureClient application on all PCs that will be used for running on-screen assessments.

Please note: for LIVE exams, you will need a minimum of one fully functional spare workstation, per 15 candidates (eg if you have 25 candidates you will need at least 2 spare workstations).

SecureClient is used by a number of Examination Boards. If it is already installed please check the version number by launching SecureClient and clicking 'Powered by Surpass®'. Check the Home screen of Surpass for the current version of SecureClient.

Please note: SecureClient does not have to be installed if you are only involved with e-submissions. However, if you are uploading large files, using SecureClient is recommended.

Pre-installation - Windows 7, Windows 8.1 and Windows 10

.NET Framework 4.0 must be installed and enabled. **DO NOT PROCEED** until this is done.

Minimum Specifications

Hardware	Software	Bandwidth
<ul style="list-style-type: none">• Processor 1.80GHz or faster x86-compatible processor• RAM 1GB• HDD Space 1GB of free space• Video Single display• Screen resolution of 1024x768• Graphics card with at least 128MB of memory• Two button mouse• Keyboard• Audio capability and headphones may be required for some assessments.	<ul style="list-style-type: none">• Supported Operating Systems<ul style="list-style-type: none">• Windows 7 (32 bit or 64 bit)• Windows 8.1 (32 bit or 64 bit)• Windows 10 (32 bit or 64 bit)• Microsoft .NET Framework 4.0• Internet Explorer 9 to 11• Adobe Flash Player 18 onwards. <i>This needs to be the ActiveX version of Flash, i.e. it needs to be installed from Internet Explorer.</i>	<ul style="list-style-type: none">• For a smoother test delivery, it is recommended that for every 30 candidates sitting at the same time, a connection speed of 2Mbps is available.

Atodiad 2: Canllaw'r ymgeisydd i Secure Client



IF YOU HAVE ANY PROBLEMS WITH YOUR COMPUTER AT ANY POINT PLEASE RAISE YOUR HAND FOR THE INVIGILATOR




1. Launch SecureClient if it is not already running.



2. Enter the Keycode you have been given and then click **OK**.



3. Check your details and click **Confirm** if they are OK, raise your hand for the Invigilator if any details are incorrect.




4. Wait for the exam to download.

5. The exam will be locked and you will see **one** of the following screens:


Locked by PIN

The Invigilator will give you a PIN to unlock the exam. Enter the PIN and then click **Enter**.



Locked by Invigilator

The Invigilator will unlock the exam.



6. Read the exam **Introduction** page.

7. Click **Start Test** button when you are ready to start.



8. Answer the questions, time remaining will be at the top of the screen.

9. If you have any problems with your computer at any point please raise your hand for the Invigilator.

10. Click **Finish** button to finish the exam. You will be asked to confirm that you wish to **Finish**. (Click **Close** button if the time has run out.)

